# Rheoli cyfyngiant ar fferm bysgod

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli cyfyngiant ar fferm bysgod. Mae'n cynnwys dylunio a gweithredu arferion fferm sydd yn cefnogi cyfyngiant ac yn lleihau'r posibilrwydd o ddianc.

Bydd y ddeddfwriaeth sydd yn rheoli cymhwyso'r safon hon yn amrywio yn dibynnu ar leoliad y fferm bysgod yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban.

Mae'r safon hon yn cynnwys y gallu i sefydlu cynllun wrth gefn o ran pysgod yn dianc sydd yn disgrifio'r camau i'w cymryd i:

- ymchwilio i achos y dianc ac ymdrin ag ef
- hwyluso'r gwaith o ddal y pysgod sydd wedi dianc
- adrodd i'r rhanddeiliaid â'r awdurdodau rheoliadol.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn gyfrifol am reoli cyfyngiant ar fferm bysgod.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. rhoi gweithdrefnau ar waith i sicrhau amgylchedd gwaith iach, diogel a chadarn
2. sicrhau bod arferion gwaith y safle yn cynnal diogeledd a chyfyngiant ac yn lleihau'r perygl o'r pysgod yn dianc
3. sicrhau bod cyfarpar a chyfleusterau yn cael eu sefydlu a'u cynnal yn unol â'r gofynion cyfreithiol a chanllawiau cynhyrchwyr
4. sicrhau bod mesurau a rheolyddion atal plâu ac ysglyfaethwyr effeithiol, cyfreithiol yn cael eu sefydlu
5. datblygu cynllun wrth gefn i atal pysgod rhag dianc
6. cyfathrebu gofynion y cynllun wrth gefn i atal pysgod rhag dianc i bawb sydd yn gysylltiedig â'i weithredu
7. rheoli'r gwaith o weithredu archwiliadau cyfyngiant
8. rheoli dianc yn effeithiol yn unol â'r cynllun wrth gefn i atal pysgod rhag dianc
9. sefydlu a chynnal cyfathrebiadau effeithiol gyda rhanddeiliaid a gwneuthurwyr polisïau
10. gwerthuso effeithiolrwydd cyfyngiant
11. rheoli cofnodion cyfyngiant yn unol â ***'r*** gofynion cyfreithiol a gweithdrefnau'r safle

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
y gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol ar gyfer iechyd a diogelwch ar y safle
2.
y gofynion cyfreithiol yn ymwneud â chyfyngiant â'r amgylchedd
3. rôl a swyddogaeth y cynllun wrth gefn i atal pysgod rhag dianc
4. y fframwaith â'r goblygiadau deddfwriaethol presennol yn dilyn torri amodau cyfyngiant
5. sut mae deddfwriaeth yn rheoli arferion ffermio a chyfyngiant stoc
6. y gofynion cyfyngiant y rhywogaethau o bysgod sydd yn cael eu ffermio
7. sut i adrodd am achos o ddianc i'r awdurdod perthnasol
8. y mesurau y gellir eu defnyddio i leihau effaith plâu ac ysglyfaethwyr
9. achosion methu â chyfyngu a physgod yn dianc, yn cynnwys y rheiny sydd yn ymwneud â dyluniad ac adeiladwaith fferm bysgod
10. sut i ddatblygu gweithdrefnau sefydliadol sydd yn ymwneud â chodau ymarfer sy'n berthnasol i'r diwydiant â'r gyfraith
11. dyluniad a chynllun uned gadw, yn cynnwys cryfderau a gwendidau y systemau sydd yn cael eu defnyddio o ran cyfyngiant
12. sut mae gweithdrefnau yn cael eu datblygu i leihau'r cyfle i ddianc
13. y prosesau a ddefnyddir i fonitro cyflwr unedau cadw
14. y broses archwilio sydd yn berthnasol i gyfyngiant
15. y camau i'w dilyn i leihau effaith amgylcheddol dianc
16. sut mae dyluniad ac adeiladwaith unedau cadw a chyfarpar trin yn cynorthwyo cyfyngiant
17. y peryglon posibl i gyfanwaith unedau cadw
18. y gofynion archwilio a phrofi unedau cadw
19. y dulliau y gellir eu defnyddio i ddal pysgod sydd wedi dianc
20. y gofynion cyfreithiol a gweithdrefnau  safle ar gyfer rheoli cofnodion cyfyngiant

## Cwmpas/Ystod

Mae'r safon hon yn gofyn am y gallu i sefydlu **cynllun wrth gefn i atal pysgod rhag dianc** sydd yn disgrifio'r camau i'w cymryd i:

1. ymchwilio ac ymdrin ag achos y dianc
2. hwyluso'r gwaith o ddal pysgod sydd wedi dianc
3. adrodd i randdeiliaid â'r awdurdod perthnasol

## Geirfa

**rhanddeiliaid** – unrhyw berson, unigolyn neu sefydliad sydd â budd yn safle'r fferm neu'r amgylchedd lleol

Rheoli cyfyngiant ar fferm bysgod

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Ebr 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAqu36 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Dyframaethu, Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | pysgod; cyfyngiant |